Santes y cariadon

Cymwynasgar / ufudd / parod i rannu

Santes Dwynwen - 6ed ganrif

Pan oedd Dwynwen yn ferch ifanc roedd pawb yn edrych arni. Roedd hi mor hardd. Byddai'r bechgyn i gyd yn dweud, "Buaswn wrth fy modd yn cael Dwynwen yn gariad i mi." Byddai Dwynwen wrth ei bodd yn clywed hyn.

Un noson bu gwledd fawr ym mhalas tad Dwynwen. Ar y byrddau roedd pob math o ddanteithion. Cigoedd, llysiau, ffrwythau, bara, gwin a chawl poeth. Ar ôl i bob un gael llond ei fol, aeth pawb i ddawnsio. Yn y gornel roedd dau grythor. Nhw oedd yn gyfrifol am y gerddoriaeth. Yn ystod y dawnsio roedd pawb eisiau dawnsio efo Dwynwen.

"Wnei di ddawnsio efo mi?" oedd cyfarchiad y bechgyn. Cytunodd Dwynwen.

Yn ystod y wledd roedd Maelon, tywysog ifanc, yn gwylio Dwynwen.

"Mi faswn i'n hoffi dawnsio efo'r ferch ifanc acw," meddai wrth ei ffrindiau gan bwyntio at Dwynwen.

"Hi ydi merch y palas," oedd ateb un o'i ffrindiau.

"Edrychwch ar ei gwallt melyn cyrliog a'i gŵn llaes coch. Mae'n rhaid i mi ddawnsio efo hi."

Cerddodd ati a gofynnodd, "Wnei di ddawnsio efo mi?"

"Wrth gwrs," meddai hithau. A bu'r ddau'n dawnsio am weddill y noson. Erbyn diwedd y noson roedd y ddau wedi syrthio mewn cariad. Yn ystod y dyddiau oedd yn dilyn roedd Dwynwen a Maelon yn gweld ei gilydd yn aml. Bron iawn nad oedden nhw'n gweld ei gilydd bob dydd o'r wythnos.

Un diwrnod aeth at ei thad a dweud wrtho, "Mae Maelon a minnau am briodi."

"Beth?" meddai'r tad yn wyllt. "Chei di ddim priodi'r tywysog yna. Rwyf am i ti gael tywysog arall yn ŵr i ti."

Rhedodd Dwynwen o'r ystafell dan feichio crio. Am ddyddiau bu yn ei hystafell yn wylo'n hidl.

Un noson aeth am dro i'r goedwig. Syrthiodd i gysgu o dan hen goeden dderw. Cafodd freuddwyd. Yn ystod y freuddwyd rhoddodd angel gwpan o ddiod felys iddi gan ddweud, "Dwynwen, y dywysoges hardd, mae gen ti ddau ddymuniad." Meddyliodd hithau'n galed am ychydig. Yna meddai wrth yr angel,

"Gan na chefais i briodi fy nghariad, Maelon y tywysog, rwyf am wneud un dymuniad arbennig. Dydw i ddim eisiau i enethod eraill fyw fel rydw i wedi byw y misoedd diwethaf yma. Dydw i ddim eisiau i neb fynd

trwy'r hyn rydw i wedi mynd drwyddo. Fe hoffwn i helpu'r cariadon. Felly, un dymuniad ydi cael bod yn nawddsant y cariadon."

Do, fe gafodd ei dymuniad. Aeth i fyw wedyn ar Ynys Llanddwyn ar lannau Ynys Môn. Ar yr ynys hon adeiladodd eglwys. Byddai llawer o bobl yn tyrru at yr ynys. Byddai pob un oedd mewn cariad yn cario carreg fechan wen efo nhw. Yna fe fydden nhw'n gosod y garreg wrth groes yr eglwys. Ar ôl gwneud dymuniad wrth y groes, fe fydden nhw'n mynd yn ôl i'r tir mawr.

Yn nyddiau olaf Dwynwen ar Ynys Llanddwyn gofynnodd i Dduw am ei dymuniad olaf, "O Dduw," meddai, "fe hoffwn i gael fy nghario at y graig acw sydd draw wrth ymyl y môr. Fe hoffwn i am y tro olaf weld yr haul yn machlud dros Ynys Môn."

Y noson honno daeth llawer o'i ffrindiau i'w gweld ac meddai wrthyn nhw, "Rwyf wedi gofyn i Dduw am fy nymuniad olaf. Wnewch chi fy helpu at y graig acw i mi gael gweld yr haul yn machlud dros Ynys Môn?"

Helpodd ei ffrindiau hi tua'r graig. Fel roedd hi'n cyrraedd, dyma'r graig yn hollti'n ddwy a thrwy'r agen gwelodd Dwynwen yr haul yn machlud yn goch dros Ynys Môn. Hwn oedd y machlud olaf i santes y cariadon ei weld. Erbyn y bore roedd hi wedi marw.

Mae pobl Cymru yn dal i gofio am Santes Dwynwen. Ar ddydd Gŵyl Santes Dwynwen, Ionawr 25, bydd llawer o gariadon yn anfon cardiau at ei gilydd. Ar ôl i chi dyfu i fyny, efallai y byddwch chi yn anfon cerdyn at yr un rydych chi yn ei garu.

"Cariad yw Duw..."
1 Ioan 4:16.

O Dduw,
helpa fi, bob amser,
i garu pawb,
yn enwedig y rhai
nad ydw i yn eu hoffi.
Amen.

Gwnewch restr o'r bobl y dylech eu caru.
Ydi'r rhestr yn un faith?

Santes Dwynwen - 6ed ganrif